

Mwy na dim ond ffeithiau

“Oherwydd buoch farw, ac y mae eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw.” (adn.3)

Beth am ddarllen Colosiaid 3:1–17 ac yna myfyrio

Fe ddechreuom ni ddoe trwy ddatgan bod stori ddwyfol yn cael ei sgwennu ym mywyd pob Cristion. Yn ôl y geiriadur, hyn yw stori: “darn o naratif, chwedl o unrhyw hyd wedi ei hadrodd neu’i hargraffu mewn rhyddiaith neu farddoniaeth ynglŷn â digwyddiadau gwirioneddol neu ffuglennol”. Mae stori’n cynnwys llawer iawn mwy na ffeithiau wedi eu gosod at ei gilydd. Mae ganddi rhythm a symudiad, uchaf ac isaf bwyntiau, golau a chysgod, plot a gwrthblot.

Gallaf sôn wrthyfych chi am fy mywyd i trwy roi rhestr o ffeithiau ichi, ond fyddan nhw ddim yn dweud stori fy mywyd i. Dim ond pan fo esgyrn y ffeithiau hynny yn derbyn cnawd manylion y dramâu sydd wedi digwydd yn fy mywyd i – gyda’r rhythmau – y mae’r stori yn dod i’r amlwg. Fel hyn y gwahaniaetha’r seicolegydd Cristnogol Dan Allender rhwng casgliad o ffeithiau a stori: “Os dywedaf i, ‘Bu farw’r brenin a bu farw’r frenhines.’ yna’r cyfan sydd gen i yw ffeithiau. Ond os dywedaf i, ‘Bu farw’r brenin a bu’r frenhines farw o alar’, nawr mae gen i sail i stori.”

Rhaid inni ddsygu gweld ein bywydau fel mwy na chasgliad o ffeithiau. Hyd yn oed yn y bywyd mwyaf cyffredin, mae ’na stori yn cael ei chreu, a fyddai, o’i gweld o bersbectif tragwyddol, yn dwyn ein gwynt oddi arnom. Efallai eich bod yn meddwl mai digon cyffredin a di-ddigwydd yw eich bywyd, ond os ydych yn Gristion, yna mae’r Duw sofran ar waith yn nyddu pob ffaith yn stori. Peidiwch, da chi, â chael eich dal gan syniadau’r byd i’r fath raddau nes eich bod yn anghofio, fel y dywed ein testun heddiw, bod “eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw”. Mae gan unrhyw fywyd sydd yng Nghrist ystyr sydd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i’r hyn sydd yn amlwg o’r digwyddiadau yma ar y ddaear.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 6:3–10; 11:23–31;

1 Cor. 9:19–23;

1 Ioan 3:2

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa stori mae Paul yn ei gweld y tu ôl i ffeithiau moel ei fywyd?
2. Sut mae Ioan yn gosod allan ffeithiau a stori ym mywyd y Cristion?

Gweddi Dad, sut allaf fi byth ddiolch digon i ti am y ffaith bod fy mywyd wedi ei guddio gyda Christ ynot ti? Datguddia imi fwyfwy bob dydd holl oblygiadau’r gwirionedd bendigedig hwn. Helpa fi i sylweddoli ei ryfeddod yn llawn. Yn enw Crist rwy’n ei ofyn. Amen.